

RHENTWYR MEWN PERYGL DIANGEN OHERWYDD OEDI YN NEDDFWRIAETH LLYWODRAETH CYMRU

Daw'r datganiad ar y diwrnod y byddai deddfau newydd yn dod i rym yn wreiddiol, sy'n diogelu rhentwyr rhag safonau byw gwael

Mae rhentwyr yn cael eu rhoi mewn perygl diangen oherwydd oedi mewn cyfreithiau hanfodol a fyddai'n diogelu rhentwyr rhag amodau byw peryglus, mae elusen diogelwch defnyddwyr flaenllaw yn rhybuddio.

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, a oedd i fod i dod i rym heddiw (dydd Gwener 15^{fed} Gorffennaf) wedi'i ohirio chwe mis wedi hynny yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r oedi'n golygu na fydd cyfreithiau sy'n diogelu rhentwyr rhag offer trydanwaith peryglus yn dod i rym tan fis Rhagfyr eleni, gan adael tenantiaid yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol mewn perygl diangen.

Daw'r datganiad ychydig wythnosau ar ôl i Ddiogelwch Trydanol yn Gyntaf gyhoeddi ymchwiliad cyntaf o'i fath yn dangos bod yr un deddfau diogelwch yn Lloegr, ar gyfer rhentwyr preifat, wedi arwain at nodi miloedd o ddiffygion peryglus mewn cartrefi rhent ledled y wlad yn ei flwyddyn gyntaf ers ei weithreduⁱ.

Roedd diffygion trydanol a nodwyd ledled Lloegr yn cynnwys peryglon sy'n peri risg uniongyrchol i'r tenant, gan gynnwys mynediad i wifrau byw a socedi plygiau a allai achosi tân a sioc drydanol.

Cymru sydd â'r stoc tai hynaf yn y DU, gyda chyfran yr anheddau yn y sector rhentu preifat yn codi'n sylweddol. Mae ganddi hefyd gyfran uwch o dai o ansawdd gwaelⁱⁱ.

O ganlyniad, mae'r elusen yn credu y gallai rhentwyr yng Nghymru fod mewn mwy o berygl o beryglon trydanol yn y cartref ac mae'r oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn golygu bod rhentwyr mewn perygl diangen ac y gellir eu hosgoi.

Dywedodd Lesley Rudd, Prif Weithredwr Diogelwch Trydanol yn Gyntaf: "Mae'r oedi diangen hwn yn y gyfraith wedi gadael cannoedd o filoedd o rentwyr ledled Cymru yn wynebu peryglon posibl yn eu cartrefi eu hunain. Cymru yw'r unig wlad ym Mhrydain o hyd i weithredu gwiriadau diogelwch trydanol pum mlynedd ar gyfer rhentwyr preifat. Bydd yr oedi i'r newid hanfodol hwn yn y gyfraith yn eu gadael mewn perygl diangen. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â chyflwyno'r gyfraith heb unrhyw oedi pellach."

Mae'r elusen hefyd yn annog landlordiaid yng Nghymru i gydymffurfio â'r newidiadau sydd i ddod i'r gyfraith, waeth beth fo oedi'r Llywodraeth.

O dan y deddfau newydd, bydd yn rhaid i landlordiaid eiddo rhent preifat a chymdeithasol gynnal archwiliadau diogelwch trydanol o'u heiddo unwaith bob pum mlynedd.

Bydd yn rhaid i'r gwiriad, a elwir fel arall yn GPC (sef gosod a phrofi cyfnodol) gael ei gynnal gan unigolyn cymwysedig, megis trydanwr cofrestredig, a fydd yn asesu diogelwch y gosodiad trydanol yn yr eiddo.

Bydd cyfnod gras ar gyfer cydymffurfio o flwyddyn yn dechrau o ddyddiad gweithredu newydd y gyfraith ym mis Rhagfyr, pan fydd gan landlordiaid yr amser i gynnal y gwiriadau i gydymffurfio. Gall landlordiaid sy'n methu â chydymffurfio â'r gyfraith wynebu sefyllfa lle bod gan rentwr hawl gyfreithiol i atal eu taliadau rhent.

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yn elusen y DU sy'n ymroddedig i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan drydan yn y cartref.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru oedi cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth, tan fis Rhagfyr 2022, gyda'r dyddiad gwreiddiol wedi'i bennu ar gyfer 15^{fed} Gorffennaf 2022. Darllenwch gyhoeddiad y Gweinidogion ynghylch yr oedi yma: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gweithredu-deddf-rhentu-cartrefi-cymru-gohirior-dyddiad-gweithredu>

ⁱ <https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/media-centre/press-releases/2022/06/how-safe-is-your-home-from-melted-wires-to-cracked-plug-sockets-new-law-sees-thousands-of-dangerous-electrical-faults-identified-in-privately-rented-homes-as-charity-calls-for-the-same-protection-for-social-renters/>

ⁱⁱ <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/arolwg-cyflwr-tai-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2017-i-mawrth-2018-ddiweddaraf-601.pdf>